



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Cynllun Iaith Gymraeg Welsh Language Scheme

Paratowyd y cynllun gwirfoddol hwn yn unol â Chanllawiau
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
o dan
Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn gan
Fwrdd yr Iaith Gymraeg
ar dd-mm-yy.

1. Datganiad

Mae Oxfam GB wedi mabwysiadu'r egwyddor wrth gynnal ei gwaith yng Nghymru y bydd yn ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Mae'r Cynllun sydd wedi ei amlinellu isod yn nodi sut y bydd Oxfam yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r targedau a'r amserlen isod yn cael eu cynnig yn y cyd-destun mai menter newydd yw hon i Oxfam, a bydd dysgu rheolaidd a phrofiad yn nodwedd o'i gweithredu.

2. Cyflwyniad

Sefydliad ymgyrchu, cynnig cymorth a datblygu yw Oxfam GB sy'n ymroi i ddarganfod atebion parhaol i tlodi a dioddefaint yn y byd. Credwn fod hawl gan bob bod dynol i fywyd o urddas a chyfle; ac rydym yn gweithio gyda chymunedau tlawd, partneriaid lleol, a chefnogwyr i helpu i wireddu hyn.

3. Datganiad Cenhadaeth

Bwriad Oxfam

Mae Oxfam yn gweithio gydag eraill i oresgyn tlodi a dioddefaint.

Credo Oxfam

- Mae bywyd pob bod dynol o werth cyfartal.
- Mewn byd sydd yn gyfoethog ei adnoddau, mae tlodi yn anghyfiawnder sydd yn rhaid ei oresgyn.
- Mae tlodi yn gwneud pobl yn fwy agored i wrthdaro a thrychineb naturiol; gall llawer o'r dioddefaint hwn gael ei rwystro ac mae'n rhaid ei liniaru.
- Mae sefyllfa lle gall pobl wynebu tlodi a dioddefaint yn cael ei dwysáu gan berthynas grym anghyfartal wedi'i seilio ar, er enghraifft, rhyw, cenedl, dosbarth, cast ac anabled; mae menywod, sydd yn y mwyafrif ymhlith pobl dlawd y byd, o dan anfantais yn benodol.
- Wrth weithio gyda'n gilydd rydym yn gallu adeiladu byd cyfiawn a mwy diogel, lle gall pobl gymryd rheolaeth ar eu bywydau eu hunain a mwynhau eu hawliau sylfaenol.
- I oresgyn tlodi a dioddefaint mae'n rhaid newid polisiau ac arferion, yn genedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal â gweithio'n agos gyda phobl yn eu tlodi.

4. Oxfam Cymru

Mae Oxfam Cymru yn gweithio i sicrhau bod lleihau tlodi, yn lleol ac yn fyd-eang, yn rhan o'r drafodaeth genedlaethol yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda gwleidyddion, sefydliadau a'r cyhoedd yn gyffredinol, i newid syniadau, credo, polisiau ac arferion. Byddwn yn cysylltu'r lleol â'r sefyllfa fyd-eang a hyrwyddo datblygu cynaliadwy gartref sydd hefyd yn hybu datblygu yn rhyngwladol.

Byddwn yn gweithio mewn ffordd gydlynol ac integredig ar draws pedair elfen rhaglen Oxfam yng Nghymru:

1. Ymgyrchu a Chyfathrebu
2. Addysg Datblygu
3. Tlodi'r DU
4. Masnachu

Mae 15 o weithwyr cyflogedig gan Oxfam Cymru ar hyn o bryd, yn gyfrifol am y swyddogaethau canlynol:

- Gweinyddu (2.6)
- Ymgyrchu (1.6)
- Addysg ar gyfer Datblygu (0.8)
- Pennaeth Oxfam Cymru (1)
- Y Cyfryngau a Chyfathrebu (1)
- Polisi ac Eiriolaeth (1)
- Rheolwyr Masnachu Rhanbarthol (2)
- Tlodi DU (4)

5. Egwyddorion

- Mae Oxfam yn cydnabod bod iaith yn rhan hanfodol o hunaniaeth rhywun a bod pobl yn gallu mynegi eu syniadau a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae galluogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da, nid consesiwn.
- Felly mae Oxfam yn bwriadu darparu gwasanaethau cyson a dibynadwy i gefnogwyr sy'n dymuno cyfathrebu yn y Gymraeg.
- Bydd Oxfam yn hysbysu Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn newid unrhyw agweddau arwyddocaol o'r Cynllun.

6. Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae'r egwyddorion hyn a mabwysiadu'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn cael eu cefnogi'n llwyr gan Ymddiriedolwyr Oxfam GB. Bydd adroddiad blynyddol ar y Cynllun Iaith Gymraeg yn bwydo'r adroddiad blynyddol corfforaethol.

Mae amserlen ar gyfer gweithredu'r ymrwymadau canlynol ar ddiwedd y ddogfen.

7. Cyfathrebu Allanol

1. Mae Oxfam Cymru yn croesawu pob ffurf a dull o gyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
2. Caiff pob galwad allanol ei hateb yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os dymuna galwr siarad yn y Gymraeg, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i'w gysylltu â siaradwr Cymraeg. Lle nad yw hyn yn bosibl, caiff y galwr ddewis naill ai siaradwr Cymraeg i ddychwelyd yr alwad neu barhau â'r alwad yn y Saesneg.
3. Bydd cyfarwyddyd llawn yn cael ei roi i staff a gwirfoddolwyr a fydd yn ymdrin â galwadau ffôn yn y Gymraeg.
4. Bydd negeseuon peiriant ateb ffôn yn swyddfeydd Oxfam yng Nghymru yn ddwyieithog.

5. Yn dilyn pob cysylltiad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw holl ddeunyddiau cyhoeddedig Oxfam ar gael yn y Gymraeg a bydd penderfyniad yn cael ei wneud am gyfieithu'r deunyddiau hynny yn unol â'r meini prawf yn atodiad 1.
6. Bydd pob gohebiaeth sy'n cael ei derbyn yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrechu i sicrhau'r un amser ymateb ag i ohebiaeth Saesneg.
7. Bydd llythyrau'n cael eu hanfon yn y Gymraeg at unigolion a grwpiau y mae Oxfam yn ymwybodol eu bod yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu sydd wedi cysylltu ag Oxfam yn y Gymraeg.
8. Bydd llythyrau safonol yn ddwyieithog.
9. Bydd pob meddalwedd a brynir gan Oxfam Cymru yn gydnaws â gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.
10. Bydd Oxfam yn ymdrechu i gynnig gwasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg.

8. Hunaniaeth Gorfforaethol

Mae Oxfam Cymru wedi mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol gyfan gwbl ddwyieithog yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ei chyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, arwyddair corfforaethol ac unrhyw wybodaeth safonol arall i'w defnyddio ar:

- Bennawd papur ysgrifennu, papur ffacs, slipiau cyfarch, llofnodion e-bost.
- Pob deunydd ar gyfer ymgyrchoedd a digwyddiadau (h.y. taflenni gwybodaeth, posteri, etc) ar gyfer y cyhoedd a gynhyrchir gan Oxfam Cymru. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyfieithu deunyddiau a baratoir gan Oxfam at ddibenion byd-eang neu ar gyfer y DU (gweler atodiad 1 am y meini prawf).
- Cardiau busnes, gwahoddiadau, bathodynau adnabod.

9. Cyhoeddusrwydd a Digwyddiadau

1. Bydd arddangosfeydd sy'n cael eu paratoi gan Oxfam Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg neu'n ddwyieithog.
2. Mae Oxfam wedi ymrwmo i ddarparu arwyddion cwbl ddwyieithog mewn lleoliadau cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys siopau a swyddfeydd), a bydd maint / ansawdd / amlygrwydd yr arwyddion hynny yn cydymffurfio'n llwyr â'r egwyddor o gydraddoldeb.
3. Bydd gwefan Oxfam Cymru yn cael ei chynllunio a'i diweddarau'n rheolaidd yn y ddwy iaith.
4. Lle mae hynny'n briodol o ran cynnwys a chyfryngau targed, bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu paratoi yn y ddwy iaith. Gall hyn fod yn anodd mewn rhai achosion (e.e. trychinebau / sefyllfaoedd argyfyngus lle mae amser yn bwysig iawn). Bydd datganiadau i'r wasg yn y Saesneg yn cynnwys enw unigolyn cyswllt sy'n medru'r Gymraeg.
5. Bydd digwyddiadau, cyfarfodydd a chynadleddau a drefnir gan Oxfam Cymru yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog.
6. Bydd staff priodol sydd yn ymwneud â chynhyrchu deunyddiau yn yr iaith Gymraeg yn cael rhestr o gyfieithwyr cymwysedig.
7. Ni fydd deunyddiau codi arian, hysbysebu a / neu hyrwyddo yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog gan fod y deunyddiau hynny'n gostus yn aml ac fel arfer yn cael eu cynhyrchu ar gyfer eu defnyddio ar draws y DU. Fodd bynnag, os byddant yn cael eu cynhyrchu'n benodol ar gyfer Cymru byddant yn ddwyieithog.
8. Bydd Facebook a rhwydweithiau electronig eraill yn cael eu cynnal yn y ddwy iaith lle bo hynny'n briodol - naill ai ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg neu'n ddwyieithog.

10. Deunyddiau Ymgyrchoedd Cyhoeddedig

1. Mae Oxfam Cymru yn anelu at gyhoeddi holl ddeunyddiau ymgyrchu perthnasol Oxfam Cymru yn ddwyieithog mewn un ddogfen. Bydd maint, ansawdd ac amlygrwydd testun yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb. Os bydd hi'n angenrheidiol am ba reswm bynnag e.e. maint y ddogfen, i Oxfam Cymru gyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddwn yn ymdrechu i'w cyhoeddi ar yr un pryd.
2. Er mwyn creu'r argraff orau, bydd deunyddiau cyhoeddusrwydd, ymgyrchu a gwybodaeth gyffredinol ac adroddiadau allanol yn cael eu cynhyrchu gan Oxfam Cymru yn ddwyieithog.
3. Nid oes cyfrifoldeb i gynhyrchu ein hól-ddeunyddiau i gyd mewn ffurf ddwyieithog, fodd bynnag bob tro y bydd Oxfam Cymru yn ailargraffu neu'n cynhyrchu deunyddiau newydd dylent gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.
4. Bydd deunyddiau gwybodaeth ymgyrchu ac adroddiadau polisi allanol a fydd yn cael eu cynhyrchu gan Oxfam GB ar gyfer eu dosbarthu'n fyd-eang neu ar draws y DU yn cael eu hasesu i weld a oes angen fersiynau dwyieithog (gweler atodiad 1 am feini prawf).
5. Bydd dogfennau polisi ac ymchwil technegol a fydd yn cael eu datblygu gan Oxfam Cymru ar gyfer cynulleidfaoedd allanol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.
6. Anaml y caiff dogfennau polisi ac ymchwil technegol a gynhyrchir gan Oxfam ar gyfer defnydd byd-eang ac ar gyfer y DU eu cyfieithu gan fod y deunyddiau hyn yn gostus yn aml a chyfyngedig fyddai eu dosbarthiad yng Nghymru.
7. Caiff tîm cynllunio mewnol Oxfam wybodaeth am y cynllun a bydd proses yn cael ei sefydlu i gynhyrchu deunyddiau dwyieithog.
8. Bydd matrices o feini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid cynhyrchu deunyddiau a baratoir gan Oxfam ar gyfer defnydd byd-eang ac ar gyfer y DU yn ddwyieithog yn cael ei ddefnyddio.

11. Addysg ar gyfer Datblygu

1. Bydd deunyddiau a fydd yn cael eu cynhyrchu gan Oxfam Cymru i'w defnyddio yn y sector addysg yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu yn y Gymraeg a'r Saesneg.
2. Bydd deunyddiau a fydd yn cael eu cynhyrchu gan Oxfam GB ar gyfer eu defnyddio ar draws y DU yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cwricwlwm yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu yn y Gymraeg a'r Saesneg.
3. Bydd Oxfam Cymru yn gofyn am ymrwymiad gan Oxfam GB i gynhyrchu o leiaf un adnodd yn y Gymraeg neu gyfres o adnoddau Cymraeg bob blwyddyn.
4. Bydd Oxfam Cymru'n rhagweithiol yn ceisio datblygu partneriaethau strategol yng Nghymru i ariannu ar y cyd fersiynau Cymraeg o adnoddau Oxfam.
5. Bydd Oxfam Cymru yn ceisio dylanwadu ar yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Panel Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ESDGC) a Hyrwyddwr ESDGC, i sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddysgu cwricwlwm ESDGC.

12. Tlodi DU

1. Bydd deunyddiau/adroddiadau a fydd yn cael eu cynhyrchu gan Tlodi DU i'w defnyddio yng Nghymru yn unig yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu yn y Gymraeg a'r Saesneg.
2. Bydd deunyddiau/adroddiadau a fydd yn cael eu cynhyrchu gan Tlodi DU i'w defnyddio ar draws y DU yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'n rhaglen yng Nghymru yn

cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fydd arian ar gael i'r bwriad hwn.

13. Is-adran Fasnachu

1. Bydd Rheolwyr Masnachu Rhanbarthol yn anfon cyfarwyddyd ysgrifenedig at reolwyr siopau yng Nghymru, gan eu hannog i gynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg yn rhan o raglen sefydlu gwirfoddolwyr.
2. Bydd Rheolwyr Masnachu Rhanbarthol yn annog rheolwyr siopau i fod yn rhagweithiol wrth recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad neu'n dysgu'r Gymraeg, yn arbennig yn rhannau o Gymru lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.
3. Mae Oxfam wedi ymrwymo i ddarparu arwyddion dwyieithog llwyr yn ei siopau yng Nghymru, bydd maint / ansawdd / amlygrwydd yr arwyddion hynny'n cydymffurfio'n llwyr ag egwyddor cydraddoldeb.
4. Bydd Oxfam yn cynhyrchu amrywiaeth o gardiau Nadolig dwyieithog.
5. Bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhannu bathodynau "Iaith Gwaith" i wirfoddolwyr a rheolwyr siopau sy'n siarad neu'n dysgu'r Gymraeg.
6. Bydd arwyddion "Ar Agor/Ar Gau" â'r brandio corfforaethol yn cael eu dosbarthu i bob siop yng Nghymru.
7. Bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhoi gwybod i siopau am ddigwyddiadau a gweithgareddau "Cymraeg Yn Gyntaf".
8. Bydd bwletinau siop a fydd yn cael eu paratoi gan Oxfam Cymru yn cynnwys un erthygl y flwyddyn am y Cynllun Iaith Gymraeg ac yn annog siopau i ehangu eu darpariaeth ddwyieithog.
9. Bydd ffrâm amser yn cael ei sefydlu er mwyn i'r Is-adran Fasnachu weithredu'r uchod.
10. Bydd Rheolwyr Masnachu Rhanbarthol yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i Dîm Rheoli Oxfam Cymru ar y cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn siopau Oxfam yng Nghymru.

14. Recriwtio

1. Mae angen aelodau staff a gwirfoddolwyr dwyieithog ar Oxfam Cymru er mwyn gwireddu ei nodau sy'n cael eu rhestru ar dudalen 2. Felly mae Oxfam Cymru'n cydnabod bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil werthfawr a pherthnasol.
2. Bydd Oxfam Cymru'n ymdrechu i sicrhau bod ganddi ddigon o staff a gwirfoddolwyr dwyieithog i ddarparu gwasanaeth priodol ar gyfer ei chefnogwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru lle mae hyn yn rhesymol ymarferol a phriodol.
3. Pan fydd swydd newydd ar gael, neu pan ddaw swydd gyfredol yn rhydd, bydd asesiad gwrthrychol yn cael ei wneud gan y rheolwr recriwtio mewn ymgynghoriad â Phennaeth Oxfam Cymru, i benderfynu a ddylid dynodi'r swydd yn un lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol ai peidio (mae'r meini prawf yn atodiad 2).
4. Lle ceir penderfyniad bod y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer y swydd neu lle mae ymgeisydd ar y rhestr fer yn dweud ei fod yn rhugl yn y Gymraeg, bydd ei allu llafar ac ysgrifenedig yn cael ei brofi.
5. Os bu anhawster i recriwtio siaradwr Cymraeg i swydd lle mae gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol, efallai y bydd angen ystyried penodi rhywun nad yw'n gallu siarad Cymraeg, Yn yr achosion hynny yr arfer fydd gofyn am gyngor gan Adran Adnoddau Dynol Oxfam.
6. Bydd pob swydd, lle nad yw'r Gymraeg yn hanfodol, yn cynnwys 'Cymraeg rhugl' fel nodwedd ddymunol. Mae hyn yn golygu y bydd rhuglder yn y Gymraeg yn derbyn pwysiad ychwanegol ymhlith y rhai a fydd yn cael cyfweiliad.
7. Bydd recriwtio staff ar gyfer swyddi Cymraeg hanfodol yn cael eu hysbysebu yn y Gymraeg, gan gynnwys eglurhad byr yn y Saesneg neu'n ddwyieithog.

8. Bydd hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn cael eu darparu i staff a gwirfoddolwyr sydd am ehangu eu defnydd o'r iaith lle mae hynny'n briodol i broffil eu rôl neu'n rhan o'u cynllun datblygu personol.

15. Hyfforddi/Cyfathrebu'r polisi

Bydd cynllun hyfforddi iaith Gymraeg yn cael ei gynllunio gyda'r blaenoriaethau canlynol:

1. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r staff newydd i gyd, fel rhan o raglen ymsefydlu Oxfam Cymru, am y Cynllun Iaith Gymraeg a phwysigrwydd cydymffurfio â'r egwyddorion a'r arferion a nodir yn y ddogfen hon.
2. Hyfforddi'r staff a'r gwirfoddolwyr presennol, a rhan o'r rhaglen ymsefydlu recriwtiaid newydd, i sicrhau dealltwriaeth ac ymrwymiad i'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd y staff i gyd yn derbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig.
3. Hyfforddi staff a gwirfoddolwyr nad ydynt yn siarad Gymraeg er mwyn iddynt gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg.
4. Gwellu sgiliau iaith Gymraeg staff a gwirfoddolwyr sy'n medru rhywfaint yn barod er mwyn iddynt allu cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg.
5. Annog staff a gwirfoddolwyr sy'n dymuno dysgu Gymraeg sylfaenol er mwyn iddynt fedru ymdrin ag ymholiadau syml gan y cyhoedd.

Bydd cyllideb hyfforddi'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r broses gyllido / gynllunio flynyddol.

16. Gweithio gyda'r Brif Swyddfa (Oxfam House, Rhydychen)

1. Bydd canllawiau cynllunio dwyieithog yn cael eu rhoi i bob aelod o staff sy'n gweithio yn nhîm cynllunio mewnol Oxfam.
2. Bydd staff allweddol yn yr adrannau yn Rhydychen yn cael eu nodi a byddant yn derbyn gwybodaeth bod angen iddynt ystyried rhoi amser ychwanegol ar gyfer cyfieithu os bydd deunyddiau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.
3. Bydd staff allweddol yn yr adrannau yn Rhydychen yn cael eu nodi ac yn derbyn gwybodaeth y dylent ystyried cost deunyddiau dwyieithog pan fydd deunyddiau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio, argraffu a dosbarthu.
4. Bydd cronfeydd canolog yn talu am gostau cynllunio, cynhyrchu a dosbarthu deunyddiau ymgyrchu. Bydd Oxfam Cymru'n gyfrifol am gostau cyfieithu.

17. Monitro

1. Mae gan Bennaeth Oxfam Cymru gyfrifoldeb dros fonitro'r Cynllun gan gynnwys cynnydd yn erbyn targedau. Bydd hon yn broses strwythuredig a pharhaol, ac yn cael ei monitro gan Dîm Rheoli Oxfam Cymru.
2. Bydd y cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn eitem agenda chwarterol yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli Oxfam Cymru.
3. Bydd crynodeb o'r cynnydd mewn adroddiad blynyddol ar y Cynllun – a bydd copi yn mynd at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
4. Bydd archwiliad blynyddol o'r dull y mae'r sefydliad yn gweithredu'r cynllun yn cynnwys:
 - a) Nifer y siaradwyr Gymraeg ymysg staff a gwirfoddolwyr.
 - b) Cynnydd yn erbyn targedau lle mae siarad Gymraeg yn hanfodol.

- c) Y gyfran o atebion i ohebiaeth Gymraeg o fewn terfynau amser cytunedig
- Bydd y cynllun yn cael ei adolygu gan Bennaeth Oxfam Cymru ac yn y DU trwy'r Grŵp Llywio i fesur ei briodoldeb ar ôl cyfnod o bedair blynedd.

18. Cyhoeddi ac Adborth.

- Bydd Cynllun iaith Gymraeg Oxfam ar gael yn union i aelodau'r cyhoedd yn ei swyddfeydd ac ar y wefan neu ar gais.
- Bydd unrhyw fethiant i weithredu gofynion y Cynllun yn cael ei gyfeirio yn y lle cyntaf at Bennaeth Oxfam Cymru, a all enwi uwch aelod o'r staff i dderbyn y gŵyn.
- Bydd cefnogwyr Oxfam a'r cyhoedd yn gyffredinol yn cael eu hannog i gynnig awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r cynllun.

19. Amserlen gweithredu

Cafodd fersiwn gyntaf Cynllun Iaith Gymraeg Oxfam ei chymeradwyo gan Ymddiriedolwyr Oxfam GB, ac mae'n weithredol er Ionawr 2004.

- Mae'r Cynllun Gweithredu canlynol wedi ei lunio i amlygu'r mesurau a'r gweithgareddau ychwanegol sy'n ofynnol i gyrraedd egwyddor Oxfam o gydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yn ei gweithgareddau yng Nghymru.
- Gall rhai targedau a graddfeydd amser wyro o'r rhai a nodwyd, ac efallai y bydd angen cyflwyno mesurau eraill fel y bydd amgylchiadau'n newid.
- Caiff unrhyw newid i'r Cynllun Gweithredu ei drafod â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a cheir adroddiad yn rhan o adolygu blynyddol y Cynllun.
- Bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei lunio yn Rhagfyr 2008.
- Bydd Tîm Rheoli Oxfam Cymru'n llywio'r cynllun yn ei flaen ac yn monitro ei gynnydd.

Atodiad 1

10. Deunyddiau Ymgyrchu Cyhoeddedig

Caiff meini prawf i benderfynu a fydd deunyddiau ymgyrchu a gynhyrchir gan Oxfam ar gyfer defnydd byd-eang neu ar gyfer y DU yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog

Ystyriaethau allweddol			
1. Pa mor berthnasol yw'r deunydd i gynulleidfaoedd Cymreig?	perthnasol iawn <input type="checkbox"/>	gweddol berthnasol <input type="checkbox"/>	ddim yn berthnasol iawn <input type="checkbox"/>
2. Pa mor aml y caiff y deunydd ei ddefnyddio yng Nghymru?	66-100% <input type="checkbox"/>	33-66% <input type="checkbox"/>	0-33% <input type="checkbox"/>
3. Am ba hyd y bydd y deunydd yn para?	18 mis + <input type="checkbox"/>	6 to 18 mis <input type="checkbox"/>	Hyd at 6 mis <input type="checkbox"/>
4. Ble bydd y deunydd yn cael ei ddosbarthu yng Nghymru?	Yn genedlaethol <input type="checkbox"/>	Gogledd/Gorllewin <input type="checkbox"/>	De Ddwyrain <input type="checkbox"/>
5. Ym mha fath o ddigwyddiadau y bydd y deunydd yn cael ei ddefnyddio?	Corfforaethol <input type="checkbox"/>	Ymgyrchoedd <input type="checkbox"/>	Codi arian <input type="checkbox"/>
6. At bwy mae'r deunydd wedi ei	Llunwyr barn <input type="checkbox"/>	Cefnogwyr	Y cyhoedd <input type="checkbox"/>

dargeddu?			
Penderfyniad	Os yw'r ticiau yn bennaf yn y golofn hon yna mae angen cyfieithu	Os yw'r ticiau'n bennaf yn y golofn hon yna efallai y bydd angen cyfieithu	Os yw'r ticiau'n bennaf yn y golofn hon yna ni ddylai cyfieithu fod yn angenrheidiol.
Arweiniad pellach			
7. Faint o gopïau sydd eu hangen?	Mwy na 2,000 <input type="checkbox"/>	500 i 2,000 <input type="checkbox"/>	Llai na 500 <input type="checkbox"/>
8. Beth yw cost ychwanegol cyhoeddi'r deunydd yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg?	Llai na £250 <input type="checkbox"/>	£250 - £750 <input type="checkbox"/>	Mwy na £750 <input type="checkbox"/>

Atodiad 2

14. Recriwtio

Meini prawf ar gyfer penderfynu a yw Cymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swydd

1. Bydd Oxfam Cymru yn nodi swyddi lle mae Cymraeg yn hanfodol a lle mae'n ddymunol. Bydd yr ymarfer hwn yn cael ei wneud mewn ffordd wrthrychol.
2. Yr arbenigedd angenrheidiol ar gyfer y swydd fydd yn penderfynu beth yw'r meini prawf;
 - a. lefel y cysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru
 - b. lefel y cysylltiad â diwydiannau a sefydliadau sy'n gweithredu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnwch y cwestiwn, oni fyddai peidio â chael sgiliau iaith Gymraeg yn gwahardd cysylltu'n llwyddiannus â diwydiannau neu sefydliadau a nodwyd?
 - c. os yw'r swydd i'w lleoli mewn ardal benodol, asesiad ieithyddol o natur yr ardal.
3. Bydd unrhyw benderfyniadau wedyn yn cael eu cynnwys yn y disgrifiadau swydd a manyleb yr unigolyn.

Atodiad 3 Amserlen Gweithredu

Rhagfyr 2007 – 2008

MAES GWEITHGAREDD	GWEITHREDU	GAN BWY	AMSERLEN
Safonau Gwasanaeth - Cyfathrebu Allanol			
Cyfathrebu dros y Ffôn	Sefydlu arfer safonol ar gyfer unrhyw un sy'n ateb y ffôn i ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
	Sefydlu protocol ar gyfer dargyfeirio galwyr sy'n siarad Cymraeg at staff priodol sy'n siarad Cymraeg os dymunir	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
	Sefydlu protocol ar gyfer atebion galw yn ôl trwy gyfrwng y Gymraeg	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
	Sicrhau bod y neges ateb ffôn ar brif ffôn Oxfam Cymru yn hollol ddwyieithog	Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Wedi'i wneud
Cyfathrebu Ysgrifenedig	Sefydlu arfer safonol o ateb yn y Gymraeg i ohebiaeth a dderbyniwyd neu gysylltu ar y ffôn neu wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
	Sefydlu'r arfer o anfon llythyrau safonol yn ddwyieithog	Pennaeth Oxfam Cymru / Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
	Safoni'r arfer o ysgrifennu yn y Gymraeg at ddefnyddwyr sy'n arfer defnyddio'r Gymraeg (ac eithrio lle mae perthynas bersonol a byddai hynny'n ymddangos yn rhyfedd)	Pennaeth Oxfam Cymru / Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
Adnoddau	Sicrhau cyflenwad o feddalwedd priodol	Swyddog Swyddfa Weinyddol	Wedi'i wneud
Hunaniaeth Gorfforaethol			
Deunydd ysgrifennu	Sicrhau cynhyrchu holl benawdau llythyrau, penawdau ffacs, cardiau galw a slipiau cyfarch yn ddwyieithog	Swyddog Swyddfa Weinyddol	Wedi'i wneud
Digwyddiadau ac Ymgyrchu ar gyfer Cyhoeddusrwydd			Wedi'i wneud
Arddangosfeydd ac arddangosiadau	Sicrhau bod holl offer arddangos cludadwy y mae Oxfam yn berchen arnynt neu wedi'u cynhyrchu yn ddwyieithog	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud

Mannau cyhoeddus	Bydd pob ardal lle mae mynediad cyhoeddus e.e. siopau a swyddfeydd yn symud yn gynyddol tuag at arwyddion dwyieithog llwyr	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru Rheolwyr Masnachu Rhanbarthol Cymru	Gwnaed erbyn Medi 2008
Gwefan	Dyrannu cyfrifoldeb ar gyfer diweddarau dwyieithog rheolaidd ar wefan Oxfam	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
Datganiadau i'r wasg	Lle mae hynny'n bosibl, datganiadau i'r wasg i'w llunio yn y ddwy iaith. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd llefarydd sy'n siarad Cymraeg yn cael ei enwi	Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Yn parhau
Cyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiadau	Sefydlu gweithdrefn lle bydd yr holl gyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog	Aelodau staff i gyd	Yn parhau
Cyfieithu	Rhestr o gyfieithwyr cymwysedig i'w rhoi i'r holl staff sy'n gyfrifol am lunio deunyddiau dwyieithog	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
Deunyddiau Ymgyrchu Cyhoeddus			
Archwilio Deunyddiau	Gwneud archwiliad o'r deunyddiau a'r adnoddau iaith a dwyieithog cyfredol sydd ar gael	Swyddog Swyddfa Weinyddol a Chynorthwydd Ymgyrchu a Chyfathrebu	Erbyn Ebrill 2008
	Datblygu rhaglen strwythuredig wedi'i hamserlennu i gynyddu deunyddiau ac adnoddau Cymraeg a dwyieithog	Cynorthwy-ydd Ymgyrchu a Chyfathrebu a Swyddog Ymgyrchu	Yn parhau
Cynhyrchu deunydd	Llunio cysylltiadau rhwng Oxfam Cymru a staff Rhydychen sydd â chyfrifoldeb am lunio deunyddiau Cymraeg	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Yn parhau
	Sefydlu protocol lle cynhyrchir deunyddiau perthnasol gan Oxfam Cymru yn ddwyieithog yn hytrach nag yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân.	Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Wedi'i wneud
	Sefydlu meini prawf i benderfynu a ddylid cyfieithu deunyddiau a gynhyrchir yn Rhydychen ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws y DU neu'n fyd-eang ai peidio	Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Wedi'i wneud
Arddangosfeydd, Cyfarfodydd Cyhoeddus a Digwyddiadau			
	Sicrhau bod arddangosfeydd ac arddangosiadau cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Yn parhau
	Sefydlu a safoni gweithdrefn i	Cynorthwy-ydd Personol	Yn parhau

	sicrhau bod yr holl hysbysebu ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus, cyfarfodydd a chynadleddau yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.	i Bennaeth Oxfam Cymru	
	Safoni system i sicrhau bod deunyddiau a gynhyrchir gan Oxfam Cymru ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Yn parhau
Addysg ar gyfer Datblygu			
Deunydd a gynhyrchir gan Oxfam GB	Cynnal cyfarfod a sefydlu protocol gyda Thimau Addysg ar gyfer Datblygu yn Rhydychen ynghylch cynhyrchu deunyddiau Cymraeg neu ddwyieithog	Ymgynghorydd Addysg a Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Erbyn Ebrill 2008
Ariannu	Datblygu partneriaid strategol yng Nghymru i gydariannu fersiynau Cymraeg o adnoddau Oxfam.	Ymgynghorydd Addysg a Phennaeth Oxfam Cymru	Erbyn Medi 2008
Dylanwadau ar eraill	Dylanwadu ar APADGOS, Panel ESDGC a Hyrwyddwr ESDGC i sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddysgu cwricwlwm ESDGC.	Ymgynghorydd Addysg	Yn parhau
Tlodi DU			
	Bydd deunyddiau / adroddiadau a gynhyrchir gan Tlodi DU i'w defnyddio yng Nghymru yn unig yn cael eu cynhyrchu naill ai'n ddwyieithog neu yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Rheolwr Rhaglen y Wlad, Tlodi DU	Yn parhau
	Bydd deunyddiau / adroddiadau a gynhyrchir gan Tlodi DU i'w defnyddio ar draws y DU a lle ystyrir eu bod yn berthnasol i'n rhaglen yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu naill ai'n ddwyieithog neu yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fydd arian ar gael ar gyfer y bwriad hwn.	Rheolwr, Tlodi DU	Yn parhau
Is-adran Fasnachu			
	Bydd pob rheolwr siop yng Nghymru yn derbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig	Rheolwyr Masnachu Rhanbarthol Cymru	Ebrill 2008
	Cyflwyno diweddariad i Dîm Rheoli Oxfam Cymru ar y cynnydd mewn arwyddion dwyieithog	Rheolwyr Masnachu Rhanbarthol Cymru	Diweddaru cyntaf – Mehefin 2008

	Bwrdd yr Iaith Gymraeg i rannu bathodynau, arwyddion i bob siop	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2008
Recriwtio			
	Sefydlu meini prawf i ystyried manyleb yr unigolyn ar gyfer unrhyw swydd gyfredol neu un newydd a ddaw'n rhydd i benderfynu a ydyw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.	Pennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
	Llunio a gweithredu gweithdrefn i hysbysebu swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac yn y cyfryngau a dargedwyd.	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
	Hysbysebu'n ddwyieithog y swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Yn parhau
	Sicrhau, fel rhan o'r broses gyfweld, bod gallu Cymraeg ymgeisydd (lle nodir hynny) ar lafar ac yn ysgrifenedig yn cael ei brofi	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru / Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Yn parhau
Hyfforddi/Cyfathrebu'r Polisi			
	Sicrhau lle yn rhaglen ymsefydlu'r holl staff a gwirfoddolwyr newydd o bwysigrwydd y Cynllun Iaith Gymraeg	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Yn parhau
	Cynnwys ystyriaeth i hyfforddiant Cymraeg ayyb fel rhan annatod o broses gyllido cynllunio blynyddol	Pennaeth Oxfam Cymru	Yn parhau
Monitro Cynnydd			
	Sefydlu proses ar gyfer monitro'r cynllun yn rheolaidd yn erbyn targedau cytunedig	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru	Wedi'i wneud
	Llunio adroddiad blynyddol ar gynnydd a datblygiad y cynllun	Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu mewn ymgynghoriad â Pennaeth Oxfam Cymru	Yn flynyddol
Gweithio gydag Oxfam House, Rhydychen			
	Rhoi canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r staff mewnol	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru / Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Erbyn Ebrill 2008
	Sefydlu gweithdrefn ar gyfer timau yn Rhydychen sy'n cynhyrchu deunyddiau er mwyn ystyried amser a chyllideb ar gyfer cynhyrchu deunyddiau	Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru / Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Erbyn Ebrill 2008

	dwyeithog		
Cyhoeddi ac Adborth			
Ymgynghori cyhoeddus	Ymgynghori ar-lein am gyfnod o un mis	Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Mawrth 2008
Adborth	Ymateb i adborth	Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Ebrill 2008
Cymeradwyo'r Cynllun yn Ffurfiol			
Cefnogaeth gorfforaethol ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg Oxfam	Mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol gan yr Ymddiriedolwyr	Ymddiriedolwyr Oxfam GB (wedi'i ddirprwyo o bosibl i'r Grŵp Llywio Cyfathrebu)	Chwefror 2008
Cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Cymeradwyo'r Cynllun yn ffurfiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Chwefror 2008
Lansiad cyhoeddus	Lansiad cyhoeddus Cynllun Iaith Gymraeg Oxfam	Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu	Eisteddfod 2008

Manylion cyswllt

Pennaeth Oxfam Cymru
d/o Julie Lewis – Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth Oxfam Cymru
Oxfam Cymru
Pumed Llawr
Adeiladau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT

Ffôn: 08700 109007 / 02920 803292

E-bost: jlewis@oxfam.org.uk